# Adroddiad Blynyddol 2018/19

# Cyng. Judith Humphreys

# Plaid Cymru

# Ward Penygroes



Pwrpas yr adroddiad yw i gynorthwyo etholwyr i wybod mwy am waith a gweithgareddau eu haelodau etholedig yn ystod y flwyddyn

Gweler y ddolen i wefan y Cyngor am fanylion cyfrifoldebau, pwyllgorau a chyrff allanol rwy'n eu gwasanaethu, ynghyd a chofnod o bresenoldeb

## Prif Weithgareddau Etholaethol a Chymunedol

- Trafod materion amrywiol gydag etholwyr dros y ffôn, e-bost, negeseuon Facebook ar dudalen Newyddion Penygroes, a cherdded y Ward
- Mynychu cyfarfodydd y Cyngor Cymuned leol yn rheolaidd
- Gwasanaethu ar Gyrff Llywodraethu Ysgol Bro Lleu ac Ysgol Dyffryn Nantlle
- Aelod o Bwyllgor Dyffryn Nantlle 2020 a Siop Griffiths
- Aelod o Bwyllgor Antur Nantlle
- Aelod o Grŵp Ynni Lleu
- Ymuno â Phwyllgor Nantlle Vale F.C.
- Ysgrifennu ceisiadau grant i geisio denu nawdd ar gyfer prosiectau amrywiol yn y Pentref
- Cefnogi'r ymgyrch i osod deffibliwr yng nghanol Penygroes
- Cefnogi ymgyrch gyda Dyffryn Nantlle 2020, Antur Nantlle a'r Cyngor Cymuned i gael Wifi cymunedol
- Ysgrifennydd Grŵp Cymunedol Ffrindiau Penygroes, gan ymuno â'r Grŵp yn fisol i gasglu sbwriel. Y Grŵp casglu sbwriel yn cydweithio gyda gwirfoddolwyr lleol megis Cadwch Gymru'n Daclus, Swyddog Cefnogi'r Gymuned yr Heddlu, Y Co-op, Merched y Wawr a CCG
- Cynorthwyo Ffrindiau Penygroes hefyd gyda'r prosiect i osod blodau yn y Pentref
- Un o sylfaenwyr ac Ysgrifennydd Grŵp Gweithgareddau Plant a Phobl Ifanc Dyffryn Nantlle, gan gyfrannu at yr ymgyrch i geisio adnabod cartref newydd ar gyfer cynnal gweithgareddau pobol ifanc

- Cefnogi prosiect ar y cyd â'r Gwasanaeth Ieuenctid, Treftadaeth Di Sylw, Canolfan Hamdden Plas Silyn, Y Llyfrgell, Antur Nantlle ac Ysgol Dyffryn Nantlle i osod murluniau ym Mhenygroes
- Cynorthwyo i gydlynu casgliad sbwriel ar y cyd ag Ysgol Bro Lleu
- Cynorthwyo i gydlynu prosiect creu poster i geisio atal sbwriel gydag Ysgol Bro Lleu
- Cynorthwyo i gael gosod 3 bin newydd yn y Pentref
- Mynychu noson wobrwyo  a chyflwyno gwobrau i ddisgyblion Ysgol Dyffryn Nantlle
- Cyfweliad ar BBC Radio Cymru i hyrwyddo enwebiad UNESCO Safle Treftadaeth y Byd, Ardaloedd y Llechi Cyngor Gwynedd
- Cyfweliad ar Raglen Heno S4C i hyrwyddo gweithgareddau pobol ifanc leol
- Cyfweliad ar BBC Newyddion 9 i drafod darpariaeth ar gyfer pobol ifanc ym Mhenygroes
- Ysgrifennu erthyglau ar gyfer y papur bro, Lleu, ynglŷn â gweithgareddau amrywiol lleol

# Cyfarfodydd, Seminarau a Hyfforddiant y bu i mi eu mynychu

- Mynychu digwyddiad Gall Genod Gwynedd - digwyddiad i geisio hybu a chynyddu cyfranogiad merched mewn chwaraeon

| | |
|---|---|
| Tai Teg - Pa Gynllluniau Sydd ar Gael | 20/02/2019 |
| WELSH LEADERSHIP ACADEMY (Aelodau Etholedig) | 20/01/2019 |
| Cyflwyniadau Effeithiol | 07/12/2018 |
| Ffordd Gwynedd | 21/11/2018 |
| Gwybodaeth am Bobl : Eich Cyfrifoldeb Chi | 05/10/2018 |
| Rhagfarn Heb Wybod / Unconscious Bias | 02/10/2018 |
| Gofal Cymdeithasol Oedolion - Ymchwil Recriwtio a Chadw Staff Gofal Cartref | 28/09/2018 |
| Rhiantu Corfforaethol | 19/09/2018 |